Dŵr Cymru
Welsh Water

# IS YOUR BUSINESS READY FOR WINTER?

As COVID-19 continues to put a considerable strain on businesses, causing many to be left empty, now more than ever we want to do all we can to help you get ready for winter.

Businesses, schools and buildings like community centres or chapels are particularly vulnerable to burst pipes during the winter.

Industrial estates or caravan parks are also more likely to have exposed pipes which can freeze and burst.

### COLD SPOTS:

1. Outdoor water pipes and taps.
2. Pipes in unheated places like roof spaces, garages, or kitchen cabinets.
3. Buildings that may be empty for a few days, like industrial units and community centres.

Winter advice:
**dwrcymru.com/WinterReady**

## PREPARE YOUR BUSINESS

### WRAP UP YOUR PIPES AND TAPS

If you have pipes, taps or tanks that are outdoors, or in a cold place, wrap them with insulation or a lagging kit and inspect them regularly.

### DRAIN DOWN PIPES THAT ARE AT RISK

Some networks, such as caravan sites and seasonal businesses are especially at risk. You may want to drain the network over the winter, but make sure it's fully chlorinated when the supply is re-established in spring.

### FIX THOSE DRIPS AND LEAKS

Dripping taps and even the smallest leak can increase the risk of frozen pipes. Talk to your staff and make sure they report any leaks, broken fittings or broken insulation.

### SPRINKLERS

Contact your sprinkler system contractor and make sure your sprinkler system is prepared for winter.

### KEEP THE HEATING ON LOW

Keep your building warm by keeping the heating on low during freezing spells, service the boiler and check your radiators are all working properly.

### KNOW HOW MUCH WATER YOU USE

If possible, take regular meter readings (where it is safe to do so) to spot any leaks quickly. Data loggers can help you spot sudden rises in consumption which could indicate you have a leak.

### PLAN AHEAD

Have a plan on how to deal with frozen pipes so they will defrost in a way that doesn't cause a burst.

### KNOW WHERE EVERYTHING IS

Many businesses have more than one stop tap. Know where your stop taps are, and check that they work. You'll need to get to them quickly, and know how to turn them off, should the worst happen.

And take time to know where water pipes are, indoors and outside, so you can inspect regularly.

## IF THE WORST HAPPENS...

### FROZEN PIPES ON YOUR PROPERTY?

If pipes in your business or on your property are frozen, it's your responsibility. You'll need to call a registered plumber.

A list of Watersafe-assured plumbers can be found on our website.

TIP
HAVE THE NUMBER OF A REGISTERED PLUMBER HANDY

### PROBLEM ON OUR NETWORK?

If you have checked the pipes on your property and they are not burst or frozen, and you still have no water supply, there may be a problem on our network. Let us know on the number below.

And if you notice a leak or burst water main out on the road and not on private property, contact us as soon as possible so we can fix it. Call us on 0800 052 0130.

Dŵr Cymru
Welsh Water

# A YW'CH BUSNES YN BAROD AM Y GAEAF?

Mae COVID-19 yn parhau i adael busnesau dan straen ofnadwy, ac mae llawer o adeiladau'n sefyll yn wag. Felly nawr yn fwy nag erioed, rydyn ni am wneud popeth y gallwn ni i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer y gaeaf.

Mae pibellau mewn busnesau, ysgolion ac adeiladau fel canolfannau cymunedol neu gapeli mewn perygl mawr o fyrstio dros y gaeaf.

Mae ystadau diwydiannol neu barciau carafanau'n fwy tebygol o fod â phibellau tu fas, sy'n gallu rhewi a byrstio.

**LLEFYDD OER:**

1. Pibellau a thapiau awyr agored.
2. Pibellau mewn mannau heb wres fel llofftydd, garejys neu gypyrddau'r gegin.
3. Adeiladau a all fod yn wag am ychydig ddyddiau, fel unedau diwydiannol a chanolfannau cymuned.

Cyngor at y gaeaf:
**dwrcymru.com/BarodamyGaeaf**

## PARATOWCH EICH **BUSNES**

**PIBELLAU A THAPIAU**
Os oes gennych bibellau yn yr awyr agored, neu mewn lle oer fel lloft neu garej, lapiwch nhw â deunydd inswleiddio neu becyn lagio, a chadwch lygad arnynt.

**DRAENIWCH BIBELLAU RISG UCHEL**
Mae risg arbennig ar rai rhwydweithiau, fel safleoedd carafanau a busnesau tymhorol. Hwyrach y byddwch chi'n dymuno draenio'r rhwydwaith dros y gaeaf, ond gwnewch yn siŵr ei fod wedi ei glorineiddio'n llwyr cyn ailgysylltu'r cyflenwad yn y gwanwyn.

**TRWSIWCH UNRHYW BETH SY'N DIFERU NEU'N GOLLWNG**
Mae tapiau sy'n diferu, a hyd yn oed y gollyngiad lleiaf yn gallu cynyddu'r risg bod pibellau'n rhewi. Siaradwch â'ch staff i'w hatgoffa i roi gwybod i chi am unrhyw broblemau gyda dŵr yn gollwng, os oes ffitiadau wedi torri neu os oes problem gyda'r inswleiddiad.

**TAENELLWYR**
Cysylltwch â chyflenwr eich system taenellu a gwnewch yn siŵr bod eich system taenellu'n barod am y gaeaf.

**CADWCH Y GWRES YN ISEL**
Cadwch eich adeilad yn gynnes trwy gadw'r gwres yn rhedeg yn isel mewn tywydd oer iawn, trefnwch fod rhywun cymwys yn dod i gynnal a chadw eich bwyler, a gwneud yn siŵr bod yr holl reiddiaduron yn gweithio'n iawn.

**EICH DEFNYDD O DDŴR**
Os oes modd, cymerwch ddarlleniadau rheolaidd o'ch mesurydd (lle bo'n ddiogel gwneud hynny) er mwyn canfod gollyngiadau'n gynnar. Gall logwyr data eich helpu chi i sylwi ar gynnydd cyflym yn eich defnydd a allai awgrymu bod dŵr yn gollwng yn rhywle.

**BLAENGYNLLUNIWCH**
Cynlluniwch sut y byddwch chi'n delio â phibellau'n rhewi fel y byddan nhw'n dadmer heb gracio.

**YMGYFARWYDDWCH Â'R LLE**
Mae gan lawer o fusnesau fwy nag un stoptap. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod ble mae'r stoptapiau, a'u bod nhw'n gweithio. Bydd angen cyrraedd atynt yn gyflym, a gwybod sut i'w cau os bydd y gwaethaf yn digwydd.

A chymrwch amser i ganfod ymhle mae'r pibellau dŵr, y tu fewn a'r tu fas, fel y gallwch eu harchwilio'n gyson.

## OS BYDD Y GWAETHAF YN DIGWYDD...

**PIBELLAU WEDI RHEWI AR EICH EIDDO?**
Os yw'r pibellau yn eich busnes neu ar eich eiddo wedi rhewi, eich cyfrifoldeb chi yw hynny. Bydd angen i chi alw plymwr cofrestredig.

Mae rhestr o blymwyr cofrestredig Watersafe ar ein gwefan.

TIP
CADWCH RIF PLYMWR COFRESTREDIG WRTH LAW

**PROBLEM AR EIN RHWYDWAITH NI?**
Os ydych chi wedi archwilio'r pibellau ar eich eiddo ac nad ydynt wedi byrstio nac wedi rhewi, ac nad oes cyflenwad dŵr gennych o hyd, mae'n bosibl bod problem ar ein rhwydwaith ni. Ffoniwch ni ar y rhif isod.

Ac os sylwch fod dŵr yn gollwng neu rwyg ar brif bibell ar y ffordd ac nid ar eiddo preifat, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn ddatrys y broblem. Ffoniwch ni ar 0800 052 0130.